# COFNODION Y CYFARFOD CYHOEDDUS I DRAFOD YMGYNGHORIAD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU YNGHYLCH Y CYNNIG I DDIDDYMU CYMUNEDAU YSBYTY YSTWYTH, YSTRAD FFLUR AC YSTRAD MEURIG AC UNO'R 3 ARDAL I FFURFIO CYMUNED NEWYDD Â WARDIAU SEF YSTRAD FFLUR.

**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, DYDD IAU 2 MAI 2024 @ 7pm**

## 1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cynghorydd Angharad Jones bawb i'r cyfarfod.

## 2. YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies
Y Cynghorydd Sirol Wyn Evans

Y Cynghorydd Mel Briant
Y Cynghorydd Gwyneth Davies
Y Cynghorydd Gareth Edwards
Gill Huckstep
Y Cynghorydd Mair Humphreys
Y Cynghorydd Alun Price Jones
Y Cynghorydd Angharad Jones
Y Cynghorydd Richard Jones
Y Cynghorydd Tomos Jones
Lisa Owen
Y Cynghorydd Gareth Owen
Angharad Shaw
Wendy Shaw
Y Cynghorydd Alan Wilkinson

Annwen Isaac – Clerc Cyngor Cymuned Ystrad Meurig
Eleri Thomas – Clerc Cyngor Cymuned Ystrad Fflur.
Ian Williams – Clerc Cyngor Cymuned Ysbyty Ystwyth

Darparodd Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies a Wyn Evans wybodaeth gefndirol ynglŷn â Chynnig y Comisiwn Ffiniau.
Mae gan brif gynghorau ddyletswydd i adrodd i'r Comisiwn ar eu trefniadau cymunedol bob deng mlynedd. Y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag adolygiadau cymunedol yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (y Ddeddf). O dan y Ddeddf mae gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) ddyletswydd gyffredinol i fonitro trefniadau ar gyfer llywodraeth leol ledled Cymru. Fodd bynnag, mae gan bob prif gyngor ddyletswydd i fonitro'r cymunedau yn ei ardal a, lle bo'n briodol, trefniadau etholiadol cymunedau o'r fath at ddibenion ystyried a ddylid gwneud neu argymell newidiadau. Cyflwynir y newidiadau hyn drwy adolygiadau ffiniau cymunedol ac adolygiadau etholiadol cymunedol. Daw adolygiad ffiniau cymunedol a gynhaliwyd gan y prif gyngor o dan adran 25 o'r Ddeddf i rym

gan y Comisiwn. Daw adolygiad etholiadol cymunedol a gynhelir gan y prif gyngor o dan adran 31 o'r Ddeddf i rym drwy Orchymyn gan y prif gyngor. Mwy o wybodaeth, dilynwch y ddolen os gwelwch yn dda.

wefan y Comisiwn.

ar gael yma.

Adolygiad Cymunedol yw pan fydd prif gyngor yn newid ffin neu drefniadau etholiadol cymuned. Adroddwyd bod Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi'i sefydlu o fewn CS Ceredigion gan mai'r Awdurdod hwn oedd wedi comisiynu'r Adolygiad. Adroddwyd bod angen diwygio cofnodion un cyfarfod.

Cynigiodd y Comisiwn ddiddymu cymunedau Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig a defnyddio'r 3 ardal i ffurfio Cymuned newydd â wardiau, Ystrad Fflur. Nid oes gan y 3 gymuned bresennol ddigon o etholwyr i'w cadw fel cymunedau ac nid oes gan y wardiau presennol ddigon o etholwyr i'w cadw fel wardiau, yn unol â Pholisi Maint y Cyngor. Bydd ffiniau presennol y gymuned yn ffurfio ffiniau'r ward cymunedol yn yr ardal Gymunedol newydd. Byddai'r cymunedau presennol yn ddi-dor. Mae'r Comisiwn o'r farn bod y cynnig yn darparu ar gyfer llywodraeth leol fwy effeithiol a chyfleus tra'n darparu ffin glir.
**Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu Cynnig Comisiwn Ffiniau Cymru.**

Gweler Tud 239-242 (cynhwysol) sef cynigion ar gyfer wardiau presennol Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig.
Draft Report Skeleton (d34hss7hg6i3n.cloudfront.net)

Adlewyrchwyd barn cynrychiolwyr Cymunedau Ysbyty Ystwyth, Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig, a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, yn y llythyr, i'w anfon at Gomisiwn Ffiniau Cymru erbyn 13 Mai 2024. Atodiad 1.

Ymhlith y pryderon, a fynegwyd oedd, Pennu'r Praesept, diogelu'r Gymraeg ac anymarferoldeb gweithredu Cynnig o'r fath.
Adroddwyd bod angen gwell cyfathrebu rhwng y Cynghorau Cymuned a'r Cyngor Sir. Meddylid y gallai Cynghorau Cymuned dderbyn mwy o gefnogaeth a chyngor gan y Cyngor Sir mewn ymgais i wasanaethu'r etholwyr mewn modd mwy effeithlon.

Awgrymwyd y dylai oll yn bresennol ymateb fel unigolion i'r Ymgynghoriad yn ogystal â'r Cynghorau Cymuned ac annog eraill i wneud hynny.
Dylid anfon yr holl sylwadau ar y cynigion drafft hyn at:
Y Prif Weithredwr
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd

CF24 0BL

EBOST: ymgynghoriadau@ffiniau.cymru

Erbyn 13.05.2024
Rhagor o wybodaeth am y broses adolygu: www.cffdl.llyw.cymru

Daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben am 8pm.

Ar ôl y Cyfarfod drafftiodd Cyngor Cymuned Ystrad Fflur, ei ymateb ei hun o dan arweiniad y Cynghorydd Angharad Jones.  Gellir ei ddarllen ar safle ar y we Cyngor Cymuned Ystrad Fflur
Daeth y cyfarfod hwn i ben am 8.50pm.